**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y FANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Cymorth Busnes |
| **TEITL Y SWYDD** | Swyddog Gweinyddol Yswiriant |
| **RHIF Y SWYDD** | NU133 |
| **GRADD** | 7 |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol ar gyfer y swydd hon | | |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad o ddefnyddio Pecynnau Microsoft Office gan gynnwys Word, Excel ac Outlook** | **Hanfodol*** | **Cais/ Proses Ddethol** |
| | **Profiad o weithio mewn rôl Weinyddol** | **Hanfodol*** | **Cais/ Proses Ddethol** |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Cais |
| **Arddull Bersonol** | **Y gallu i gynnal agwedd hyderus a gwydn mewn sefyllfaoedd heriol*** | **Hanfodol*** | **Cais/ Proses Ddethol** |
| | Y gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Y gallu i anwesu a rhoi gwerth i amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, ac â'r gallu i addasu dulliau i gwrdd â gofynion newidiol | Hanfodol | Proses Ddethol |

Dyddiad y Crëwyd: Mai 2022
Awdur: G Greathead

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Rhyngbersonol** | **Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod o gynulleidfaoedd**<br><br>Y gallu i weithio'n effeithiol gydag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub neu â sefydliadau eraill | **Hanfodol***<br><br>Hanfodol | **Cais/ Proses Ddethol**<br><br>Proses Ddethol |
| **Tasg** | **Y gallu i gynhyrchu gwaith cywir a phroffesiynol, gyda chywirdeb manwl**<br><br>**Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol***<br><br>Y gallu i ddeall, dwyn i gof, cymhwyso ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn modd trefnus, diogel a systematig<br><br>Y gallu i fabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol | **Cais/ Proses Ddethol**<br><br>**Cais/ Proses Ddethol**<br><br>Proses Ddethol<br><br>Proses Ddethol |

**Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.**

**Gall y rôl hon gynnwys peth teithio rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

**Bydd gofyn am wiriad gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn achos cais llwyddiannus.**

Dyddiad y Crëwyd: Mai 2022
Awdur:  G Greathead